1607/6111.(5)

CANU

Y

Pererinion Cyfluddiedig

AR

Eu TAITH tu a SEION

NEU

Ychydig o EMYNAU

PROFIADOL,

Er MAWL i DDUW,

A Chynnydd i'r CRISTION.

Gan D. MORYS, gerllaw Lledrod.

CAERFYRDDIN,

Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior, gerllaw yr Eglwys.

M,DCC,LXXIII.

At y Darllenydd.

GWybydded pwy bynnag y digwyddo hyn o Emynau i'w dwylaw, na fwriedais i erioed, wrth eu canu, eu rhoddi mewn print; ac mai afreidiol oedd i mi oſod fy enw yn gyhoeddus trwy eu hargraffu.

Ond wrth gofio am y gwyr goludog oedd bwrw i'r dryſorfa o'r hyn oedd yng ngweddill ganddynt, mi glywes beth cymhelliad ynof i daflu fy nwy hatling i mewn yn eu myſg. Heb law hynny, wrth roddi ymbell air y maes o honynt weithiau mewn cynnulleidfaoedd criſt'nogol, a gweled ymbell blentyn newynog yn adfywio trwy'r ymborth gwael hwn, a'r Arglwydd yn diſgleirio arnynt trwy y moddion, mi feddyliais ei fod yn bechod i gadw bara haidd oddi wrth eneidiau newynllyd, hyn a'm cwbl gymhellodd idd eu goſod o'th flaen yn y drych y gweli hwy.

Os bendith a gei oddi wrthynt trwy eu darllain, neu eu canu, rho'r clod i Dduw a gweddia droſof finnau,

Yr hwn wyf dy gydymaith mewn Cyſtudd,

Dafydd Morys.

CAN

CAN

Y Pererinion cyſtuddiedig.

EMYN I.

1 MAE brodyr i ni aeth ym mlaen,
Yn holl-iach bob yr un;
Deng mil o filoedd yw eu cân,
Er hyn nid y'nt ond un.

2 Bydd pawb o'r brodyr yno'n un,
Heb neb yn tynnu'n groes;
Yn moli 'r Duwdod yn y Dyn,
A chofio 'r angeu loes.

3 Ceir gweled gweddi f' Arglwydd mâd,
A'i eiriau oll ar ben;
A phawb yn foddlon i'w eu 'ſtad,
A'i alwad uwch y llen.

4 Ni welir yno unrhyw boen,
Na neb yn achwyn clwy;
Ond pawb mewn hwyl yn moli'r Oen,
I drag'wyddoldeb mwy.

5 Bydd yr holl leſtri yno'n llawn,
O olew, gras, a hedd;
Heb brinder arnynt fore a nawn,
Nac ofn colli ei wedd.

6. Cymmylau duon ffoant ffwrdd,
Terfyſgoedd o bob rhyw;
Holl nwydau nattur, hyll eu twrdd,
A 'n ddim yngwydd fy Nuw.

7 Daw 'r holl dduwiolion yno ynghyd,
O'r gogledd, dehau, heb ri';
A'u holl gadwynau'n chwilfriw mân
A'u Cân am Galfari.

EMYN II.

1 NID oes i'w ddiſgwyl ar ein taith,
Ond amryw ſaith ofidiau;
Trallod ar ol trallod ſydd,
Yn digwydd yn ein dyddiau;
Ffyddlon weiſion, Ieſu cyſion,
Sydd yn ochain mewn peryglon;
Dan eu cleiſiau, a'u mawr glwyfau,
Yn ofni na cha'nt wel'd eu gartre';
Ond adre'r aeth, rhyw filoedd maith,
Trwy'u taith, i ben eu ſiwrnai.

2. Dieithr ydwyf yn y byd
Sy'n myn'd tu a thragywyddoldeb;
Yn ceiſio dilyn ol y praidd,
A phroſi 'r nefol undeb;
Yn y culni, a'r caledi,
Cwrdd â ſtormydd fry ac obry;
Angrhediniol, a chyſtuddiol,
Parhau 'n gyndyn ac yn ddeddfol;
C'od fi i'r lan, fy Arglwydd mâd,
I ryddid rhad dy bobol.

3 Gad i mi gael o ſyppiau'r wlad,
Fy Nuw, a'm Tad cymmodol;
Rho im' o'th breſennoldeb ſiw,
Cadernid gwiw'r crediniol;
Dal fy yſpryd, egwan hefyd,
Uwch y ſtormydd maith a'r blinfyd;
Nes dod adre', ar fy ſiwrnai,
Pâr im' brofi y gwaed ſyppiau;
O cynnal fi, fy Nuw, fy Nêr,
Nes dod i'r pêr drigfannau.

EMYN III.

1 FY enaid, c'od o ganol gwae,
A chofia'r gwynfyd ſy'n parhau;
Ni dderfydd byth mo'r dawel wledd,
Sy' i'r duwiol ſaint tu draw i'r bedd.

2 Os caf fod yno ymhlith y rhai
Sy' wedi darfod, â'u holl wae;
Rhyfeddu wnaf tra ar fy nhaith,
Rhyfeddu i drag'wyddoldeb maith.

3 Fy yſpryd, ſugna'n fwy i'th hedd,
Tra b'wyf yr ochr hyn i'r bedd;
Ac ar fy 'madawiad, bydd
Yn Gyfaill im' yn angeu ddydd.

4 Er cwrdd â meibion Anac, fil,
Cadw fi ar y llwybr cul;
Rho im' y fath gadernid cry
I fentro 'n wyneb uffern ddu.

EMYN IV.

1 WRTH brofi 'r llygredd gwreiddiol fydd
Yn berwi ynof, nos, a dydd,
Ynghyd â rhwydau 'r gelyn cas;
'Rwy 'n ofni 'n fynych colli 'r macs.

2 Ac oni b'ai 'r cyfuron fy',
Yn d'od i lawr o'r nefoedd fry;
I lonni f' enaid ar ei daith,
Fe lewygafai lawer gwaith.

3 O caniattâ fod newydd lef,
O fewn fy enaid tu a'r nef;
Ac na âd i mi lwfrhau,
Iacha fy mriw, a maddeu'm mai.

4 Rho olwg ar dy haeddiant drud,
(Gwell ganwaith yw i mi nâ'r byd)
Fel y gallwy' fentro yn y bla'n,
Heb ofni grym y dw'r na'r tân.

5 Rhyw groefau a themtafiynau mawr,
Sy'n gwafgu f'enaid lleſg i'r llawr;
O cadarnha fi yn dy nerth,
I ddringo creigydd mawrion ſerth.

6 Mewn rhyfel 'r wyf fi 'nawr o hyd,
Ymdrechu'n erbyn cnawd a byd;
Nid oes ond Iefu Grift a'i ras,
All roi im' nerth i gario 'r macs.

EMYN V.

1 O ARGLWYDD Iôr! chwanega'm ffydd,
Rho brawf o'th gariad, nos, a dydd,
A dwg fi i maes o'r carchar prûdd,
I brofi 'th hyfryd hedd:
Rho i mi nerth i *gleimio* 'n awr,
Fy rhan yn y Gwaredwr Mawr,
Na âd im' byth i ſuddo i lawr,
O'th dawel wiwiol wedd.

2 O maddeu

2 O maddeu f' angrhediniaeth gâs,
Sy'n peri im' ofni colli 'r maes,
Gad i mi gael o'th nefol ras,
I'm nerthu yn y blaen:
Yn erbyn cnawd, yn erbyn byd,
A drygau ſatan oll eu gyd,
A phob rhyw drachwant yn ſy mryd,
Pob ſtormydd dwr a thân.

3 Nid oes ond gofid lle'r wy'n byw,
A drygau creulon o bob rhyw,
O dal ſi 'r lan ſy anwyl Dduw,
Nes myn'd oddiyma maes:
Mae arnaf ofn troi yn ol,
Rhag i mi ſod fel morwyn ffol,
O tynn ſi, tynn ſi, ar dy ol,
A nertha ſi â'th ras.

4 Gad i mi gael dy Yſpryd Gûn,
I wneud d'ewyllys di dy hun;
A dyſg ſi i fyw tra ynwyf ffun,
Er clod i'th nefol ras:
O gwel yr eiddil lleſga' crioed,
Yn griddfan yma wrth dy droed;
A help ſi fyw it' tra b'wy'n bod,
Nes d'od trwy angau glas.

EMYN VI.

1 RHYW guro ar gefn curo
Sydd ar ſy egwan ffydd;
Rhyw ffrwd o lygredigaeth,
'R wy'n broſi nos a dydd:
O fewn i'm calon atgas,
Mae pechod yn cael bri;
Nid oes a'm tynn o'i rwydau,
Ond Criſt ar Galfari.

2 O golwg ar dy allu,
Rho i mi trwy fy oes;
Fel na b'o achos ofni,
Neb temtasiynau, a chroes:
A chynnal f' enaid eiddil,
I deithio yn y blaen;
Trwy 'r anial mawr o dd'rysni
Nes d'od i Salem lân.

3 O gad i mi gael profi,
Dy nawdd a'th nefol hedd;
'R hyn ydwyt yn ei roddi,
I'th saint tu yma i'r bedd:
Fy erchiad ydyw hynny,
Cael bod yn un â thi;
Trwy 'r hwn a ddioddefodd,
Ar goppa Calfari.

4 Rhyw dreial ar ol treial sydd
'Wy'n gyffwrdd lawer gwaith;
Rhyw stormydd ar ol stormydd
O hyd ar hyd fy nhaith:
Rhyw filoedd maith o ddrygau,
Sy' am ladd fy enaid gwan;
Nid oes ond câr troseddwyr,
A'm cynnal i i'r lan.

EMYN VII.

1 RHO ffydd i olygu'r gwaed,
A lifodd ar y pren;
Yr hwn sy'n rhoi rhyddhâd,
A groesaw i'r nefoedd wen:
Dy farwol glwy, i olwg ffydd,
A ro fy enaid bach yn rhydd, &c.

2 Mewn tywyllwch na âd fi fod,
O Arglwydd, ddim yn hwy;
Gad i mi er dy glod,
I adnabod marwol glwy:

Un olwg ffydd ar Ieſu cun,
Wna'n iach fy nghlwyfau bob yr un.

3 Mewn Aipht heb oleu dydd,
Yr 'wyf pan f'oſt di 'mhell;
I maes o'r Goſen brudd,
Tynn fi i wledydd gwell:
Trwy'r anial maith, arwain fi 'mlaen,
Nes d'od i mewn i Ganaan lân.

4 Un o'r rhai gwannaf wyf,
Ag ſydd mewn anial fyd;
Yn ceiſio d'od ymlaen,
Er gwaetha 'r ddraig a'i llid;
A diau yw, y byddai 'n ol,
Oni chod y bugail fi 'n ei goel.

5 Mae rhwydau o'r tu blaen,
Mae maglau o'r tu ol;
Ni wnaf ond colli 'r dydd,
O cymmer fi 'n dy goel:
Rho im', rho im', o'th gadarn nerth,
I ddringo creigydd mawrion ſerth.

EMYN VIII.

1 CADW 'm golwg i yn waſtad,
Yn gywir ar y gwerthfawr waed,
'R hwn a lifodd ar Galfaria,
I maes o ddwylaw ac o draed.
Ffrynd troſeddwyr, Ffrynd troſeddwyr,
O moes i mi 'n awr dy law.

2 Gwan a lleſg ac eiddil ydwyf,
Angrhediniol yn parhau;
O rho i mi nerth i gredu,
Dy fod wedi maddeu 'm mai;
Rho dyſtiolaeth, &c.
Fod pyrth y nef yn agor im' !

3 Y mae rhwydau ſatan ddiriaid,
Y mae ſwmbwl yn fy nghnawd,
A chablau'r byd yn blino f' enaid
Gyd â themtaſiynau a gwawd.
Gwna fy mwy, &c.
Trwy dy ddwylaw di yn gryf.

4 Nid oes neb o'r holl angylion,
Nid oes neb o'r côr ſy' fry;
A all helpu f' enaid eiddil,
I dd'od yna attat ti.
Braich drag'wyddol, &c.
Dynn fy enaid tu a thre'.

5 O gad i mi fwytta 'r ſyppiau,
Syppiau peraidd Canaan wlad;
Y rhai 'r ydwyt yn eu rhoddi,
I dy etholedig had.
Rho i minnau, &c.
Brawf o'r iachawdwriaeth rad.

EMYN IX.

1 TI yw'r Ceidwad hwnnw aned,
Yn Ephrata, ddinas wael,
I gael achub pechaduriaid,
Oedd heb obaith 'ynt i'w gael:
Ffyddlon geidwad, &c. &c.
Cadw finnau er dy glod.

2 'R duaf wyf o bechaduriaid,
Tad toſturi trugarha;
Nid oes cyfaill, nid oes calon,
All fy nhynnu o fy mhla.
Anwyl Ieſu, &c. &c.
Moes gynnorthwy 'th allu im'.

3 Holl-wybodol wyt o'r cwbl,
Ti a wyddoſt fel yr wyf fi;
Heb un galon i dy garu,
Heb yſpryd 'chwaith i fentro trwy:

Rho

Rho i mi galon, &c. &c.
I godi'r groes a'th ganlyn di.

4 Ti wnaethoſt ti i'r mudan ddywedyd,
Ac i'r marw dd'od yn fyw;
Ti gongc'reſt ti fy holl elynion,
Ar y groes trwy farwol glwy:
Cyd-yndeimla, &c. &c.
'N awr â minnau fwydyn gwael.

5 Rho im' galon i dy garu,
Ffydd i gredu ynot ti,
Dy ſod wedi talu'm dyled
Trwy dy glwy' ar Galfari:
Rho dyſtiolaeth, &c. &c.
O hyn yma bob yr awr.

EMYN X.

1 DY gariad di ſy'n drech nac angeu,
Dy gariad di ſy'n drech na'r bedd;
Dy gariad di a rodda heddwch,
Yn y rhyfel, a mawr hedd:
Yn dy gariad, &c. &c.
Mi fentraf trwy elynion mawr.

2 Nertha'm henaid mewn gorthrymder,
Gwena ar fy yſpryd gwan;
Pan f'wyf dan gyſtuddiau mawrion,
Cynnal f'enaid lleſg i'r lan:
Anwyl Ieſu, &c. &c.
Rho im' brawf o'th nefol ras.

3 Dyro nerth i bara'n ffyddlon
Hyd y diwedd, Ieſu cu;
Er bod pechod, er bod ſatan,
Yn fy nghuro, o bob tu:
Hollalluog, &c. &c.
Dal fy yſpryd lleſg i'r lan.

EMYN

EMYN XI.

1 O Iesu tynn ft i'r lan,
A gwrando'm gweddi brudd;
Bydd Arglwydd ar fy rhan,
I'm harwain nos a dydd:
O dwg fi 'mlaen trwy donnau maith,
Rho im' dy gwmp'ni ar fy nhaith.

2 Gad i mi deimlo'th hedd,
Yn aros dan fy mron;
Tra b'wyf tu yma i'r bedd,
O sugna'm bryd o'r bron;
Bydd yn fy arwain yn y blaen,
Nes d'od i mewn i Salem lân.

3 Mae yma ofnau lu,
Yn llechu dan fy mron;
A llawer gelyn sy'
Am wneud fy'm brad o'r bron,
Boed dy addewid gref o'm rhan,
I ddal fy enaid llesg i'r lan.

EMYN XII.

1 YN iach blesserau ieuengctid,
A'r hawddfyd s' ar y llawr;
Pererin wy' n trafaelu,
Tu a thrag'wyddoldeb mawr;
Dieithr ydwyf yma,
Draw mae fy ngartre' clyd,
A barattodd fy Mhriod,
Ymhell cyn seilio'r byd.

2 Yr Iesu craig yr oesoedd,
Yw'm cymmorth cadarn cu;
Fe'm gwared rhag llaweroedd,
O 'lymion creulon cry:

Fe'm

Fe'm cynnal yn y culni,
Fe'm harwain yn ei law;
Fe g'od fy enaid fynu,
I gyrrau 'm gartre' draw.

3 Fe genir, ac fe genir,
Yn nhrag'wyddoldeb maith,
Os gwelir un pererin
Mor lleſg, ar ben ei daith;
A gurwyd yn y 'ſtormydd,
A olchwyd yn y gwaed,
A gannwyd, ac a gadwyd,
Trwy iachawdwriaeth râd.

EMYN XIV.

1 O Demtaſiynau dû,
Mor gedyrn yw eich grym;
Ai byth y byddwch chwi
Yn ddigalondid im'?
O ddedwydd awr! O ddedwydd ddydd!
Pan gaffwyf fyn'd o'ch rhwymau'n rhydd,
Pan gaffwyf, &c.

2 O tyred Ieſu 'n awr,
A ch'od fy yſpryd gwan,
I maes o'r cyſtudd màwr,
A maglau'r ddraig i'r lan;
O goſod fy yſpryd Ieſu cun,
I bwyſo arnat ti dy hun,
I bwyſo, &c.

3 Henffych i'r borau clir,
Datguddia 'r gwir i mâes;
Ar ol rhyfeloedd hir,
Gorchfyga 'r nefol ras:
O'm llygredd cryf tydi gei friw,
Pan ddelo 'i ben holl eiriau'm Duw,
Pan ddelo, &c.

EMYN XV.

1 OFni 'r wyf na ddarfu i ti
Ieſu, 'ngharu i erioed,
Na fy ethol yn dy arfaeth,
Yn y *cwnſel* cyn fy mod:
Gwna i mi gredu, &c. &c.
Hyn wna 'm henaid wrth ei fodd.

2 Dal fy yſpryd lleſg i fynu,
Sydd ym mron a llwfrhau;
Cynnorthwya f' enaid egwan,
Yn erbyn llu 'r uffernol ffau:
Gwna fi 'n gadarn, &c. &c.
I gredu yn dy alluog fraich.

3 D' addewid di a faedda 'r moroedd,
D' addewid di a faedda 'r don;
D' addewid ddal fy enaid eiddil,
I fyn'd trwy orthrymderau o'r bron:
Cynnal fy yſpryd, &c. &c.
Anwyl Oen i'th ganlyn di.

4 Y mae dyfroedd Mara 'n chwerwon,
Idd i'w hyfed fwy na mwy;
Nid oes dim ond pren y bywyd,
A all eu pereiddio hwy:
Gwaed dy galon, &c. &c.
Fyddo 'm cân tra bwy 'n y byd.

5 Cas troſeddwyr yw dy enw,
Tirion fuoſt im' erioed;
Di geſt angau, di geſt uffern,
Di geſt ſatan dan dy droed:
Trwy dy glwyfau, &c. &c.
Rho im' allu arnynt oll.

6 Rho im' ffydd i gydio ynot,
Nerth i ymnerthu yn dy ras;
A [illegible]addia i'm o'r newydd,
Fy ſiaidd aflan galon gas,

Fel

Fel y gallwyf, &c. &c.
Bob yr awr ffieiddio f' hun.

EYMN XVI.

1 RHYFEDD na buaſai'm lletty,
Ynghanol uffern boeth yn awr,
Gyd â Chain a'r damnedigion,
Tu hwnt i'r gagendor fawr;
Gyd â'r rhai, lle'd oes ond gwae,
Dros drag'wyddoldeb i barhau.

2 Y gwrthddrych o dy rad drugaredd,
O Arglwydd da, gadewaiſt fi!
Yn lle bod mewn trueni'n gorwedd,
Cael clywed ſain d' efengyl di;
Lle rhow'd iawn, boddlonrwydd llawn,
I gyſiawnder, un prydnhawn.

3 Anwyl Oen, tydi yn unig,
Fedr gyd-ymdeimlo â'r gwan;
Yr hwn a fuoſt mewn peryglon
Ce'ſt dy demtio ym mhob man.
Er hyn i gyd, er gwaetha llid
Tydi gongc'reſt rwyſg y byd.

4 Cynnal fy yſpryd lleſg blinderog,
Anwyl Ieſu dan y groes;
Dyro nerth i mi ymwadu
A fy hun, tra paro f' oes;
A dal i'r lan, fy yſpryd gwan,
Dan demtaſiynau, fawr a mân.

5 Dyro nerth i mi ymadael
A phleſerau o bob rhyw;
Fel na 'mofynwyf unrhyw gyſaill
Ond tydi, fy Anwyl Dduw:
Rho im' yn rhad, dy alw'n Dad,
A *xpleimio* hawl i'th ddwyfol y waed.

EMYN XVII.

1 D'Anfeidrol allu Arglwydd mawr,
A'm dwg i tu a thref,
Trwy dd'ryfni maith y ddraig a'i llid,
I mewn i deyrnas nef,
I mewn i deyrnas nef,
I mewn i deyrnas nef.

2 Er gwaetha' dw'r, er gwaetha' tân;
Mae 'r Iefu ar fy rhan;
Er llid gelynion fawr a mân,
Mi ddôf ryw ddydd i'r lan,
Mi ddôf ryw ddydd i'r lan,
Mi ddôf ryw ddydd i'r lan.

3 Er cwrdd â chroefau rîf y gwlith,
A phoenau ar y llawr;
Henffych i'r awr a'r bore ddydd,
Caf fyn'd o'r cyftudd mawr,
Caf fyn'd o'r cyftudd mawr,
Caf fyn'd o'r cyftudd mawr.

4 Ca' i 'r delyn auraidd yn fy llaw,
Yn lle cael cario 'r groes;
A'r palmwydd gwyrdd yr ochr draw,
A chanu am angau loes, &c. &c.

5 Daw'r ffyddlon faint eu gyd ynghyd,
I mewn i deyrnas ne';
I wel'd yr Oen fu ar y bryn,
Yn dioddef yn eu lle, &c. &c.

6 Ymhlith yr rhai 'n ceiff f' enaid gwan,
Heb gyftudd, gwae, na phoen
Ynghyd â'r faith a'r ugain mil,
Dd'we'yd, Teilwng ydyw'r Oen,
Dd'we'yd, Teilwng ydyw'r Oen,
Dd'we'yd, Teilwng ydyw'r Oen.

Yr ail Ran.

1 GOGONIANT fyddo i'th enw mawr,
Am ddod i brynu dŷn,
A diſgyn o lys nef i lawr,
I'th wneud â ninnau'n un, &c. &c.

2 Yr oeddem wedi mynd ymhell
Oddiwrthyt ti o Dduw;
Ond yn ein nattur ſe dy gaed,
Mewn agwedd gwas yn byw, &c. &c.

3 I'r corph a barottoiſai'r Tad,
Ein Duw, di dd'eſt un dydd,
I brynu i ni bardwn rhâd,
A'n dwyn o'n rhwymau'n rhydd, &c. &c.

4 Ymdeithiaiſt trwy'r diffeithwch du
Fel gwr gofidus gwael,
Er gwaetha llid y ddraig a'i llu
I brynu pryfed ſael,
I brynu pryfed ſael,
I brynu pryfed ſael.

EMYN XVIII.

1 DI fuoſt yn yr ardd ſy Nuw,
Yn chwyſu'r dw'r a'r gwaed;
Fel gall'ſwn i aflanaf ddyn
Yn hollol gael iachâd,
Yn hollol gael iachâd, &c.

2 Mewn cariad, Ion, y de'ſt ti lawr,
I'r dda'ar o entrych ne';
Mewn cariad e'ſt o'r preſeb gwael,
I farw yn ſy lle, &c. &c.

3 Mewn cariad gwiſgaiſt goron ddrain,
Y fantell goch, a'r cur;
Mewn cariad cymreſt bigau main,
A'r hoelion llymion dûr, &c. &c.

4 Daeth Iachawdwriaeth gyda'r gwaed,
A lifodd ar y pren,
Gorphenaiſt Iachawdwriaeth râd
Agoraiſt ddrws y nen,
Agoraiſt ddrws y nen, &c.

EMYN XIX.

1 ER mod i'n griddfan ar y llawr,
O dan fy ffiaidd feiau mawr;
Mae'r Ieſu ettò'n eiriol fry,
Gan haeru haeddiant Calfari.

2 Mae anghredinîaeth bob yr awr,
Yn gwaſgu f' yſpryd lleſg i lawr;
'D oes ond dy anorch'lygol rás,
Ro' i mi nerth i *gario* 'r maes.

3 Mae'r pair yn boeth yn berwi'n awr,
O groeſau maith a drygau mawr;
Am guro f' yſpryd yn ei ol;
Arglwydd çymmer fi'n dy goel.

4 'D oes ond tydi a ddal i'r lan,
Fath adyn gwyw, fath eiddil gwan,
Ag ſydd yn barod bod yr awr,
I ſuddo dan y tonnau mawr.

EMYN XX.

1 MAE 'nghalon yn fy nhynnu i lawr,
I garu gwegi'r byd yn fawr,

Ac 'r wy am fyw, tra caffwyf ſod,
Yn y greadigaeth îs y rhod.

2 O ſugna f' yſpryd lleſg i maes,
O'r cwbl ſy ar y ddaear lâs,
Na chaffwy' orphwys yn fy myw,
Ond yn dy goel fy anwyl Dduw.

3 Gad i mi roddi pwys fy mhen,
Yn dawel ar dy fynwes wen,
Yngwedd dy wyneb gad im' fod,
A phob rhyw bechod dan fy nhroed.

4 Nertha f' yſpryd lleſg a llaith,
I landio trwy'r anialwch maith,
A gwedd dy wyneb gwridog gwynn
A dynno'm mryd i Seion fryn.

5 Lle mae fy mrodyr oll mewn hwyl,
Tu draw i'r bedd yn cadw gwyl,
Heb boen na gwae yn dod i'w plith,
Yn gweled gwedd eu priod byth.

Yr ail Ran.

1 ARWEINYDD wyt i'm henaid llaith,
Trwy fyrddiwn o ofidiau maith,
'D oes arall gynnal fy yſpryd gwan
Dan orthrymderau'r byd i'r lan.

2 Y gwanna wyf, a'r lleſga erioed,
A geiſiodd gyrchu at y nod,
A rhedeg gyrfa i maes o'r byd,
A glynu wrth yr Oen o hyd.

3 D' alluog law a nerth dy fraich,
A ddal fy yſpryd dan ei faich,
I hwylio f' enaid yn y blaen
Nes delo i mewn i'r Ganaan lân.

4 Rhyw

4 Rhyw groeſau a themtaſiynau mawr,
Ga'dd pawb o'r ſeintiau ar y llawr,
Ond adre'r aethant oll eu gyd,
Er gwaetha llu y ddraig a'i llid.

EMYN XXI.

1 PA'M digalonni ſ' enaid gwan,
Er cwrdd a chroeſau ym mhob man;
Fe aeth yr Ieſu ei hun o'r blaen,
I dorri grym y dw'r a'r tân.

2 Rhai aethant maes o'u gwae a'u poen,
Orchfygſant trwy nerth gwaed yr Oen
Aethant i mewn i'r gwledydd pur,
I gael mwynhau llawenydd gwir.

3 Maent nawr yn gwel'd wyneb eu brawd
A'u nerthodd hwy trwy lid a gwawd,
Cânt eu foliannu'n beraidd byth
Heb ſon am bechod yn eu plith.

4 Fy enaid paid a grwgnach mwy,
Yn hytrach cana, glod i'w glwy,
Er bod mewn carchar cul a braw,
Cei landio ar fyrr i'r ochr draw.

EMYN XXII.

Dymuniad am ddatguddiedigaeth o ddaioni a chariad Duw.

1 ANFEIDROL yw'th ddaioni di,
O Arglwydd, at y gwael,
Yr hwn fy'n crynu wrth dy air,
Heb noddfa ganddo i gael,
Heb noddfa ganddo i gael,
Heb noddfa ganddo i gael.

Dy

2 Dy glwyfau gwaedlyd, Ieſu gwiw,
Fo'n noddfa i fy yſpryd gwan,
I lechu ynddynt tra fwyf byw
Rhag drygau fawr a mân, &c.

3 Na ad fi 'maflyd mewn rhyw rith,
O grefydd heb ei grym,
Par i mi nabod Ieſu Grift
Yn fywyd anwyl im', &c.

4 Na fydded byth gen i ryw lamp,
O grefydd heb wir fail,
Heb ſulwedd olew ynddi'n bod
Sef nabod Adda'r ail, &c.

5 Datguddia im' o Arglwydd da,
Dy hunan bob yr awr,
Meddyginiaetha fi o'm pla,
A ſugna fi o'r llawr,
A ſugna fi o'r llawr,
A ſugna fi o'r llawr.

EMYN XXIII.

1 RHO 'th gariad cryf yn fy yſpryd gwan,
I'm nerthu ar dy ol,
Na chaffwyf drigfan mewn un man,
Ond yn dy gynnes goel, &c.

2 Goleuni 'r nef fo'n gymmorth im'
I'm tywys yn y blaen,
N'ad i mi droi oddi ary ffordd
Bydd i mi'n golofn dân, &c.

3 Mae rhyfyg ar fy aſſwy law,
Anobaith ar y llall,
A ſatan yntau bob yr awr,
Yn diſgwyl cael rhyw wall, &c.

4 Mae

4 Mae deddf ſ' aelodau ynnwyf nawr,
Am ladd fy anian wan,
Nid oes ond ti fy Arglwydd mawr,
Am cynnal i i'r lan, &c.

EMYN XXIV.

1 RHYFEDDOL yw dy enw mawr,
Anfeidrol yw dy rym,
Nid oes un gelyn ar y llawr
A ſaif i'th erbyn ddim, &c.

2 Di faeddaiſt angau ac uffern ddu,
Ar ben Calfaria draw ;
[illegible]rynaiſt heddwch llawn i mi :
O Ieſu moes dy law, &c.

[illegible]dia i mi'r heddwch hwn,
[illegible]g nghanol rhyfel poeth,
[illegible] fy maich, eſmwytha'm mhwn,
'Rwy'n ffol, O gwna fi'n ddoeth, &c.

4 O dwg fi i garu pethau'r nef,
A darfod mwy â'r llawr,
Ac na b'o gennyf gyfaill mwy,
Ond fy Iachawdwr mawr, &c.

EMYN XXV.

1 ESTYN i maes dy gadarn fraich,
I'm dwyn i tu a thre',
A chynnal f' yſpryd dan ei faich,
Nes dod i deyrnas ne', &c.

2 Rho im' o'r ſyppiau grawn yn rhad
Tra b'wyf tu yma i'r bedd,
Fel bwy'n hiraethu am y wlad
Yr hon ſy'n llawn o hedd, &c.

2 Lle mae llu mawr yn awr yn un
Yn gwledda ar yr O'n
Heb grocs na chyſtudd gwae na gwŷn
I dynnu eu tannau o'u tôn, &c.

3 Difyrru maent ar hyfryd wedd
Eu ffrynd a'u hanwyl frawd,
Gan gadw gŵyl mewn hŵyl a hedd,
I maes o gyrraedd gwawd, &c.

4 'N lle croes, mae ganddynt goron aur,
'N lle gofid, palmwydd gwyrdd,
Ym moli'n beraidd fe a'u caer
'Mhlith ſeintiau miloedd myrdd, &c.

5 Pam y galeri f' enaid gwan
Mae'r amſer yn neſau
Cei ddiangc adre yn y man
I blith y dedwydd rai, &c.

EMYN XXVI.

Dychweliad y mab afradlon, Luc. 15.

1 WRTH wel'd y curo crènlon,
A'r mawr elyniaeth ſy',
Yn rhwyſtro Plant afradlon
I dyfod attat ti;
Oni bai dy fod â'r gallu
Ie â'r holl allu mawr,
Ni ddoi un mab afradlon,
I ſyrthio o'th flaen i lawr.

2 Bendigaid fyddo d' enw,
Di ddoeſt a rhai o bell,
I adael eu cas gibau,
A 'mofyn am wlad well;
Ac er dymuno o honynt,
Gael torri eu nhewyn mawr;
Fe ffaelodd dim a'i dorri,
Ag oedd ar ddaear lawr.

3 Anadl

3 Anadla ar laddedigion
O'r newydd Arglwydd da,
Bywha y digred meirwon
Sy'n ddwfn yn eu pla;
O chwythed y gogleddwynt
A'r dehau, heb attal byth,
Ne's delo Babiloniaid
O'u carchar, rif y gwlith.

4 Gad i'm gael brodyr newydd,
I fyn'd tu a Salem lân,
A bydd yn wir arweinydd
I'n cynnal yn y bla'n;
O ſathra ein gelynion,
A gwna ni'n filwyr dewr,
Yn fyddlon dan dy faner,
O ein Iachawdwr mawr.

5 O'r Iſraeliaid cywir
Gwna dy ganlynwyr glan,
Heb ofni trwſt y rhyfel,
Yr arfau llym nâ'r tân;
A'th bur arfogaeth nerthol,
Arfoga 'th blant, O Dad!
Ne's maeddu llu'n gelynion,
A llwyr feddianuu'r wlad!

EMYN XXVII.

Siommedigaeth oddi wrth y byd; a Duw'n bob peth.

1 WEL dyma'r byd mae aml ddrygau,
Yn cwrdd â'm hyſpryd ar ei ſiwrnai;
Rhyw *dreialon* heb rifedi,
Beunydd, ſy'n ſy amgylchynu.

2 'D oes yma ddim ond trai a llanw,
Weithiau 'n felus, weithiau'n chwerw,

Weithiau

Weithiau'n brudd, ac weithiau'n llawen,
Gwyn fyd gai fyn'd tu draw'r Iorddonen.

3 'R wy'n teimlo f' enaid yn bendithio,
Fy Arglwydd Ior, Tywyſog Silo,
Am wneud pryfyn, ſael, anufudd,
Yn rhydd-ddineſydd Salem newydd.

4 Ni bydd yno demtio a phechu,
Na chwympo maes, nac ymgynhennu,
Ni ſlina dim fy enaid gwirion,
'N ol landio un waith dros yr afon.

5 Os rhaid yw yfed dyfroedd Mara,
A threulio'm hoes mewn ymdrech yrfa;
O Dal i'r lan, (fy Nhad, a'm Harglwydd,
Fy yſpryd gwan mewn byd o dramgwydd.

6 'Chwanega 'm ffydd, O Dduw, i ymddiried,
Yn d' allu di, fy Nhad bendigeid,
Gan gredu dof trwy fyd o drallod,
I mewn i'th lŷs a'th hedd ddi-ddarfod.

7 Er cael fy nghuro'n nhrigfan dreigiau,
A ſuddo'n fynych dan y tonnau,
Fe ddaw'r hyfryd, ddedwydd wawrddydd,
Na welir t'wyllwch yn dragywydd.

8 Wel doed a ddelo, tra b'wyf yma,
Mi ro'f fy hun yn llaw Iehofa;
Efe yw ffynnon iachawdwriaeth,
Sy'n golchi ymaith lygredigaeth.

9 Pan ddelwyf yno, mi gaf lonydd,
Gan fyd, a chnawd, a phob rhyw 'ſtormydd,
A holl beryglon dyffryn Baca;
Caf ganu yno, Haleluia.

10 Ni chefaiſt yma f' enaid gwirion,
Ond gwawd ac erlid a pheryglon,
A chael dy ſiommi a'th bueni beunydd,
Gan ryw greadur gwael neu gilydd.

11 Ond gwlad tu hwnt i gyrhaeddiadau
Satan ddewr a'i demtaſiynau,
Sydd wedi ei rhoddi yn yr arfaeth
I'm henaid gwan yn etifeddiaeth.

12 'R wy'n glaf am weld y dydd yn dyfod
I'm henaid eiddil gael gollyngdod,
O ſwn y rhyfel a chyſtuddiau
A myn'd i mewn i'r per drigfannau.

EYMN XXVIII.

Y Rhan gyntaf.

ARGLWYDD graſol dyro gymmorth,
I gyhoeddi etto i maes,
Ddyfnder calon dyn truenus
Ac anfeidrol olud gras.
Fel b'o dyfnder, &c.
Byth am ddyfnder yn cael ſon.

2 Dyn ſy'n torri ei addunedau,
'Sgil ſydd gennyf o bob math,
Ffeindio ffordd i wneud fy hunan,
Yma 'n euog, yna 'n gaeth
Yn ymddryſu, &c.
Yn yr eilun, yn y byd.

3 Tithau Arglwydd 'wyt yn chwilio,
'M llwybrau dyrys yma a thraw,
Chwilio 'r wyt ti bob rhyw gongl
Am y llygad, am y llaw,
Sydd am gadw, &c.
Fy enaid gwan o dîr ei wlad.

4 Ceiſio cyfeillachu â delwau,
'R llafn aur, a'r fantell glyd,
Ceiſio bod yn ffrynd â'r eglwys,
Chwennych bod yn ffrynd â'r byd,
Ond trwy'r cwbl, &c.
Tynn ſi'n hollol ar dy ôl.

Yr

Yr ail Ran.

1 TIroedd Senir, tiroedd Hermon,
Gwlad y llewod lawer awr,
Weithiau 'm denu wneir â thegan,
Nes b'o i 'n griddfan ar y llawr:
Grym y 'ſtorom, &c.
Boenodd fy enaid yn y byd.

2 Weithiau bygythiadau creulon,
Draw yn rhuo o fy mlaen;
Haeru bydd y corph a'r enaid,
Ryw ddydd tywyll yn y tân:
Etto mywyd, &c.
Sydd guddiedig yn y nef.

3 Grym fy ofnau ſydd yn peri,
I mi gwympo wrth dy draed;
Arglwydd Ieſu bydd drugarog,
Dyma ngweddi, Gwaeddi rhad:
Eſtyn allan, &c.
Allu 'r nef o blaid y gwan.

4 Grym mewn 'ſtorom ſydd yn felus,
Goleu gwawr 'nol tywyll nos;
Teimlo Ieſu ſydd feluſach,
Yn fy nghynnal dan y groes:
Gras i ſefyll, &c.
Dere 'n nes a dal fi 'r lan.

5 Gras ei gyd ddechreuodd dynnu,
Fy enaid gwan o'r Aipht i maes;
Yn rhad yr wyt yn para i weithio,
Ar fy enaid trwy dy ras:
Yn rhâd gorphenni, &c.
Rhâd rhâd, caf ſinnau gann draw.

EYMN XXIX.

Ar y Meſur newydd. CAN. I. 7.

1 O Dywed imi 'r hwn ſydd hoff
Gan fy enaid gwan am dano!
Pa le yr wyt y dyddiau hyn,
Yn addfwyn yn bugeilio?

2 Ym mha le y mae'th orphwysfa, lon
I'th Bererinion ofnus;
Yr hon ſydd ganddynt hwy yn rhydd,
Yng ngwres y dydd yn felus.

3 Ar ganol dydd gad i mi ddo'd,
I hynod orwedd yno;
Lle caiff dy braidd ar oriau poeth,
Yn odiaeth eu diflino.

4 Ar lan yr afon fawr ddidrai,
Sy' â'i ffrydiau 'n parhau 'n gyſon;
Gad i mi dd'od i deimlo ei gtym,
Yn llonni 'm henaid gwirion.

5 Can's pa 'm byddaf yma fel un ffol,
O ledol yma 'n aros;
Yn troi oddi wrth dy deulu llon,
O Arglwydd tirion! dangos.

EMYN XXX. *Am y Farn.*

1 O RIAU amſer ſydd yn dirwyn,
Treulio 'r ydych yn y blaen;
Ni orphwyſwch i lonyddwch,
Nes fy ngorphen yma 'n lân:
Oriau 'nolur, *&c.*
Ddeuſydd yn y cyſtudd mawr.

2 Ym mhen

2 Ym mhen 'chydig bach o amſer,
Fe geir gweled oriau'r nef;
Wedi eſgor ar ddiwrnod,
Na bu gyffelyb iddo ef:
Dydd o alar, &c.
Etto gwynfyd pawb o'r plant.

3 Dydd y gwelir pob rhyw fillaf,
O holl eiriau Duw ar ben;
Moroedd mawr yn berwi fynu,
Creigiau'n hollti dan y nen:
Haul yn duo, &c.
Sêr yn ſyrthio lawr o'r nef.

4 Gwelais arwydd yn yr awyr,
Arwydd mwyaf fu erioed;
Gyd â'r cwmmwl gwelai'n eglur,
Hynottaf heddyw ac fu'n bod:
Gweled Barnwr, &c.
Nef a daear yn ei rwyſg.

5 Gwelir yno filoedd meithion,
O hên gedyrn mawr y byd;
Edrych fynu yn ddychrynllyd,
Ar eu Barnwr mawr y gyd:
Oll yn gwridio, &c.
Oll yn ſobr ac yn ſynn:

6 Caf wel'd yno lawn ddiflino,
Holl fforddolion Seion fryn,
Pawb â'u cyſtudd wedi darfod,
A'u holl nychdod y pryd hyn:
Dechreu ſabboth, &c.
Na ddaw diwedd arno mwy.

7 Gwledda cyſon a fydd yno,
Fyth gan Shilo Brenhin hedd;
Llawn ddiodi rhai ſychedig,
Gwledda 'n unig yn ei wedd:
Anherfynol, &c.
Fydd y gwleddoedd hyn heb drai.

MARWNAD
I
RES WILLIAM o *Gauo*.
Gan yr un Awdwr.

M mryd ar fraint fy mrodyr,
A redodd fry o'r frwydyr,
I ben eu fiwrnai;
nnau ar fy nhrafel,
wyfo yn y rhyfel,
hwng tanllyd faethau;
u pigau acthlyd main,
os i forau,
rhoi im' friwiau,
Mawr yw fy nghlwyfau,
Waith cwch eu harfau hwy;
Nes cael fy nwyn yn hollol,
ddwyfol farwol glwy':
oen, heb gwmp'ni 'r addfwyn Oen;
'Does lle im' orphwys,
Na 'mgeledd gyminwys,
Waith cwymp paradwys,
Mae llygredd ynwy'n llawn;
Yn rhwyfo ynwy 'n rhyw le,
O'r borau hyd brydnhawn.

2 'R wy'n cael fy nal â fyndod,
Ac mewn griddfannau'n barod,
Wrth aml glywed;
Fod brodyr i mi'n blaeni,
Yn loyw maes o'r d'ryfni,
Mewn llawen nodded;
I wlad, lle nid oes cig a gwa'd,

Ddim

Ddim yn cyſtuddio,
Nac yn gofidio,
O fewn i honno,
Fyth neb o deulu Nhad;
Ond canu 'r Anthem ſelus,
Am rinwedd mawr y gwa'd:
'Does ſôn, o fewn yr anedd hon,
Am wâg ogoniant,
Na chnawdol foliant,
Nac unrhyw nwyſiant,
A welir ar y don;
Ond pawb yn uno i ganu,
Am rinwedd Ieſu O'u.

3 Pan byddwy'n teithio heddy',
Trwy lawer rhan o Gymry,
Mewn poen a lludded;
Mae brodyr i mi 'n eiſiau,
Fe ddygwyd ar elorau,
Eu cyrph i wared:
Yn glau, i gyſgu ennyd frau,
Mewn gwely tawel,
O ſŵn y rhyfel,
O'u poen a'u trafel,
Maent wedi llwyr ryddhau,
Yn llonydd oddiwrth eu llafur,
A'u cyſtudd a'u holl drai;
Mewn hedd, yn rhwydd, tra 'nt yn ý bedd;
Maes o'u gofidiau,
Beth wneſt ti angau?
Ond eu dwyn adre',
I ſwynhau 'r nefol wledd;
Rhyw gymmwynaſwr ydwyt,
I'r Saint er maint dy gledd.

4 *Rees William* a ymadawodd
Yn ddiweddar, ac a hunodd
Mewn tangnefedd,
Ynyſau a ga's golled,
Gadawaiſt hwy 'n ymddifaid,
Maent yn cyfaddef:

I'r wlad, lle na ddaw cig a gwa'd,
Ceſt dy ddwyn adre',
Gan nefol freichiau,
I'r hên aneddle;
I ſanctaidd dŷ dy Dad,
Lle na bydd teimlo poenau,
Ond canu am rym y gwa'd:
I'r lan, i'r nefol hyfryd ſan,
At delynorion,
A'u tannau 'n dynnon,
Yn moli 'n gyſſon,
Yn uchel iawn eu cân,
I'r hwn a'u dygodd drwodd,
Drwy ddyfro'dd mawr a thân.

[illegible] ymweliadau,
[illegible] wrth ddechrau'th ſwrnau,
I'th ddwyn di allan;
[illegible]ght a'i mhawr gaethiwed,
[illegible]oden dir i fyned,
I'r nefol Ganaan:
[illegible]oedd ddyrys iawn a maith,
Ce'ſt dy ddwyn adre',
Trwy ſôr a thonnau,
Trwy ſawr gyſtuddiau,
Ce'ſt gwrddyd lawer gwaith,
Trwy rym rhyfeloedd diried,
Ce'ſt fyned ar dy daith:
Draw draw, tu hwnt i boen a braw,
I maes o'r 'ſtorom,
Lle 'r y'm ni 'r awron,
A maith beryglon,
Yn griddfan lawer awr,
A thithau 'n canu yn
Tu faes i'r cyſtudd mawr.

6 Ni fedraf ſi mo'r canu,
Am dy happuſrwydd heddy',
'Does genny' ond griddfan,
Yng ngrym y 'ſtormydd diriaid,
Sydd yma i gael mor amled,
Cyn gweled Canaan:

Bob

Bob dydd, â threial ar ein ffydd,
Gan rym y tonnau,
Ac amal rwydau,
A mawrion ddrygau,
Beunydd yma fydd;
Mae hiraeth ar fy nghalon,
Am fod yn gwbwl rydd:
Tu draw, bob cyſtudd, poen a braw;
I maes o'r tonnau,
Lle 'nawr wyt tithau,
Ar ben dy ſiwrnau,
A'r palmwydd yn dy law,
Lle cawn ni gyd-gyfarfod,
A'n Priod yn ddifraw.

7 Wel frodyr dewch yn eon,
Trwy 'r gorthrymderau mawrion,
Ordeiniwyd i ni;
Fe dorrwyd grym y tonnau,
Fe dynnwyd colyn angau,
Mae lle 'r ddyweddi:
Ryw ddydd, cawn fod yn gwbwl rydd,
O'r holl garcharau,
A'r hên groglathau,
A ſatan yntau,
Sydd wedi colli 'r dydd;
A diwedd ar y 'ſtormydd,
Ffarwel dreialon ffydd:
Ym mlaen, er gwaetha' gwres y tân;
Y cloff a'r clwyfus,
A'r tlawd afiachus,
A'r gwan a'r rheidus,
Cawn lawn oll i'r lan;
Ffarwel [illegible] Canaaneaid,
Gibeoniaid yn y man.

8 Tu ſewn i furiau Salem,
Fe dderfydd beichiau 'n cefen,
A'n hamal waſgfa,
Sy'n cwrddyd â ni'r awron
Ar hyd y creigydd geirwon,
Tra byddom yma:

Pob

Pob ſaeth, o eiddo uffern faith
Fydd er ei chwer'der,
A'i thoſt lem bwer,
Pa fwya 'n temtier,
Mwy melus pen y daith;
Ffarwel i ddyffryn Baca,
A groeſaw fêl a llaeth:
O'r dydd, pan ddelwy 'n gwbwl rydd,
Tu draw i angau,
Pwy fath ganiadau,
Ar aur delynau,
A pheraidd dannau ſydd,
Nes delo 'n cyrph i'r un lle,
O'r bron ryw forau o'r prydd.

EMYN ganlynol a chwanegwyd at Waith yr AWDUR.

Richard Davies
his Book
March
1798

2 COR.

2 Cor. v. 10.

Y mae'n rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crift.

1 O Flaen yr orfedd fawr bob un,
I dderbyn barn gan Fab y Dyn
Mae'n rhaid in' oll i fyn'd ar frys,
Pob un ger bron y frawdle fawr,
Na's gwyddom ddim o'r pryd na'r awr,
Pob un i atteb wrth y wŷs.

2 Yr Archangel mawr a'i uchel lef,
A floeddia'n gryf o ganol nef;
Gan alw'r meirw i godi'n glau,
Ac yna'r cyfiawn a gŵyd ar frys,
Yn hardd a difglair wrth y wŷs,
Dan foli ei Arglwydd yn ddidrai.

3 Ac yna'r Barnwr mawr uwch ben,
A eiftedd ar ei orfedd wen;
Ac yna cefglir pawb ger bron,
Ac fe'u didola yn ddiball,
Y ffol i bant oddiwrth y call,
Ac yna gwelir Saint yn llon.

4 Ac yna d'wed y Brenhin pûr,
Wrth y duwiolion oll yn glîr,
Dewch fendigedig blant fy Nhad,
Chwi rai fu'n dioddef drofwy'n hir,
Deweh 'nawr i mewn i'r Ganaan dir,
I wir feddiannu'r deyrnas râd.

5 Ac yna d'we[illegible]enhin mawr,
Wrth yr ann[illegible]
Oddiwrthyf m[illegible] cadwynau cwerw,
At ddiafol a'i uffernol lu,
I ganol y tywyllwch dû,
Ac yno gwae drag wyddoch gewch.

6 Y rhai

yn gyrthod deddfau'r nef,
Cant oll eu rhwymo ganddo ef
A'i tadau'r trag wyddol dân.
Cant ynô eu poen yn ddi-gwyn,
Gyrthod Crist a'i fengyl fwyn,
Pryd hyn yr wylant fawr a mân,

Ac yna cwmp'ni Iesu Grist,
Yn llawen oll, heb neb yn dmst,
Yn hardd a dinglair bob yn un,
Ac yna inewn trag wyddol dôn
I canant, Halelwia'r Oen,
Hosanna byth i Fab y Dyn.

DIWEDD.

fod yr Awdur ym mhell oddiwrth yr Argraffdy, fe ddiangodd rhai beian, megis tu dal. 10. ll. *mewn* yn lle *mewn*. a tu dal 24. llin. 7. *Babilon* yn lle *caethion Babel*.

Bydded hyspys i'r cyffredin, fod gwerth dwy geiniog o Emynau, o waith y Parchedig Mr. Daniel Rowland, i ddyfod allan ar frys; ac fe ellir eu cyd-rwymo a'r rhai a ddaethant allan o'r blaen ddiweddar: hefyd yr ydys yn bwriadu argraffu cyffelthiad Saes'neg o Bregethau yr un Awdur. ——— Eu gyd. i'w cyhoeddi gan T. Davies, gerllaw *Hwlffordd*.